**COFNODION**

**Dyddiad:** Dydd Iau, 27 Mawrth 2003

**Amser:** 9.00am

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

**Yn Bresennol:**

| Aelodau | Etholaeth |
|---|---|
| Gareth Jones **(Cadeirydd)** | Conwy |
| Jane Davidson **(Gweinidog)** | Pontypridd |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Cynog Dafis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |

| **Swyddogion** | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, DfTE |
| Elizabeth Taylor | Pennaeth, Rheoli Ysgolion |
| Elizabeth Williams | Pennaeth, Polisi Ieuenctid |
| Derek Adams | Pennaeth, Addysg Uwch |
| Keith Davies | Pennaeth, Safonau a Pherfformiad |
| Judith Cole | Uned Gymorth Ganolog |

**Hefyd yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Susan Lewis | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant, Estyn |
| Liz Kidd | Pennaeth yr Adran Arolygu Addysg a Hyfforddiant 16+ |
| Gareth Adams | Rheoli AEM: gwaith AALlau |
| Jane Harries | NSPCC Cymru - Cynghorydd Addysg |
| Sara Reid | Dirprwy Gomisiynydd Plant - Cyfathrebu |

| | |
|---|---|
| **Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau** | |
| Chris Reading | Y Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**
1.1 Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.

1.2 Nododd y Cadeirydd ymddiheuriad Janice Gregory a chroesawodd Christine Gwyther fel eilydd.

3 Cyhoeddodd y Cadeirydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Pwyllgor a chydnabu waith:

- Cynog Dafis fel cyn-Gadeirydd y Pwyllgor ADGO a chadeirydd hefyd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant 16+ a'i gyfraniad sylweddol at waith y ddau bwyllgor, sef yn arbennig rhoi Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant a'r adolygiad o addysg uwch ar waith.
- Huw Lewis a Jonathan Morgan am eu gwaith ar adolygiad y Pwyllgor o'r polisi TGCh mewn Ysgolion a'u hymrwymiad didor i fonitro cynnydd yn y maes;
- Cynog Dafis a Lorraine Barrett am eu gwaith ar ran y Pwyllgor gyda phenodiadau cyhoeddus;
- Cynghorwyr arbenigol y Pwyllgor am eu help gydag adolygiadau polisi amrywiol - Margaret Hanney (Blynyddoedd Cynnar), Neil Harries (TGCh), yr Athro Leslie Hobson (Addysg Uwch) a Catrin Redknap (y Gymraeg);
- Y Gweinidog a'i swyddogion - am eu cyfraniad gwerthfawr at waith y Pwyllgor ac am gydnabod rôl y Pwyllgor fel datblygwr polisi;
- Holl aelodau presennol a chyn-aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith caled; ac
- Yr Ysgrifenyddiaeth am eu cymorth.

**Eitem dau: Adroddiad y Gweinidog**
***Papur: ELL 05-03 (p.1)***

2.1 Dywedodd y Cadeirydd mai dyma fydd ei hadroddiad olaf i'r Pwyllgor.  Mae adroddiad diwedd y flwyddyn wedi'i gynnwys yn y papur.  Ceir yn atodiadau'r papur wybodaeth y mae'r Pwyllgor wedi gofyn yn benodol amdani ac awgrymodd fod yr Aelodau'n holi cwestiynau sy'n ymdrin yn benodol â'r materion hyn.

**Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu (NGfL Cymru)**
2.2 Cydnabu'r Aelodau yr hyn y mae NGfL Cymru wedi'i gyflawni.  Teimlwyd, fodd bynnag, bod pryderon didwyll gan y sector addysg bod angen mwy o adnoddau ar yr NGfL nag sydd wedi'i neilltuo, iddo allu gwireddu'r amcanion y gwnaeth y Pwyllgor eu nodi yn ei adroddiad ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh).  Fel ymateb, dywedodd y Gweinidog fod NGfL Cymru wedi'i ariannu yn unol â gwerth y bid a wnaed gan y Consortiwm - sef £2.3 miliwn dros gyfnod o dair blynedd.  Dywedodd ei bod yn rhagweld mai NGfL Cymru yn y tymor hir fydd y man cyswllt cyntaf i holi am adnoddau ar gyfer y cwricwlwm.  Awgrymodd y Gweinidog y gallai'r pwyllgor newydd enwebu Aelodau i gadw golwg ar faterion yn ymwneud â TGCh.

2.3 Wrth ateb cwestiwn am hyfforddi athrawon i ddefnyddio TGCh yn effeithiol a hyfforddi technegwyr mewn ysgolion, dywedodd y Gweinidog bod arian wedi'i neilltuo eleni ar gyfer hyfforddiant a chefnogaeth dechnegol.

**Amserlen i Ddarparu ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) trwy gyfrwng y Gymraeg**
2.4 Roedd yr Aelodau yn falch bod is-grwp wedi'i sefydlu i ddatblygu strategaeth AAA cyfrwng Cymraeg ac maent yn gobeithio y bydd yna weithredu ar argymhellion y grwp. Roedd yna beth pryder bod yna fwy o ddewis h.y. prif ffrydio ac unedau arbennig, i'r rheini sydd am wasanaethau AAA uniaith Saesneg nag i'r disgyblion sydd ag angen rhai cyfrwng Cymraeg arnynt. Ymddengys mai prif ffrydio yw'r unig ddewis iddynt. Teimlwyd ei bod yn annerbyniol bod rhai teuluoedd yn gorfod brwydro i gael darpariaeth AAA cyfrwng Cymraeg. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd cadarnhau'r amserlen. Esboniodd y Gweinidog taw mater cymhleth yw AAA - awdurdodau addysg sy'n gyfrifol am eu darparu a'r awdurdodau iechyd sy'n gyfrifol am y staff. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn gweithio ar gynllunio'r gweithlu. Mae angen meddwl eto am gynlluniau cymell mewn ymddiriedolaethau iechyd. Esboniodd y Gweinidog iddi gomisiynu ymgynghoriad llynedd ar gyfer Adroddiad y Gweithgor Iaith a Lleferydd ond bydd yn dechrau yr un pryd â'r is-grwp ym mis Mehefin eleni.

**Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon**
2.5 Cyfeiriwyd at y ffaith i 1,960 o fyfyrwyr (graddedigion ac ôl-raddedigion) gwblhau cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon yn llwyddiannus yng Nghymru yn 2000 ond ar 31 Mawrth 2001, doedd 42.3% ohonynt ddim yn dysgu yng Nghymru a Lloegr. Roedd yr Aelodau am wybod a fyddai'r mwyafrif yn mynd i ddysgu, a faint o'r bwrseriaethau ac ati a roddwyd sydd wedi mynd yn ofer. Roedd yr Aelodau am wybod a oedd rhesymau eraill pam nad oedd pobl yn mynd i'r proffesiwn. Cynigiodd un Aelod eu bod efallai yn cymryd hoe ar ddiwedd y cwrs.

2.6 Roedd y Cadeirydd am wybod faint ohonyn nhw, wedi cwblhau'r cwrs, oedd wedi penderfynu peidio â mynd i ddysgu a faint ohonyn nhw oedd wedi methu â chael hyd i swydd ddysgu. Dywedodd y Gweinidog bod y data'n ymwneud yn unig â'r flwyddyn gyntaf wedi cwblhau'r cwrs. Esboniodd y Gweinidog bod swyddi'n brin yn y sector cynradd o'i gymharu â Lloegr. Ni fyddai'r data chwaith wedi dangos faint ohonynt fyddai wedi mynd i dde ddwyrain Lloegr i ddysgu, lle mae prinder athrawon. Bydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn edrych ar bwnc cadw a recriwtio athrawon. Mae angen cadw golwg dros gyfnod hir ar y sefyllfa o ran recriwtio athrawon, yn enwedig dros y flwyddyn brawf a datblygiad proffesiynol cynnar. Byddai gofyn i unrhyw Weinidog Addysg yn y dyfodol edrych ar ffigurau'r sector cynradd.

2.7 Cafwyd peth trafodaeth ynghylch a ddylai'r rheini sy'n derbyn hyfforddiant mewn pynciau sy'n brin o athrawon gwblhau blwyddyn o wasanaeth cyn derbyn rhandaliad olaf eu bwrseriaeth. Esboniodd Richard Davies nad oes gofyn gorffen blwyddyn o wasanaeth cyn derbyn rhan-daliad olaf y fwrseriaeth. Er hynny, mae newid pwyslais wedi bod, o dalu'r rhan fwyaf yn y dechrau i dalu'r rhan fwyaf yn y diwedd. Dywedodd y Gweinidog bod £6000 ar gael i ôl-raddedigion sy'n dilyn cyrsiau ITT, ond addawodd y byddai'n ysgrifennu at Jonathan Morgan gyda'r manylion.

**Pwynt Gweithredu**
- **Bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at Jonathan Morgan gyda manylion y bwrsieriaethau mewn pynciau lle ceir prinder athrawon.**

**Rhestru Sialensau**
2.8 Er ei fod yn cydnabod y llwyddiannau a fu mewn sawl maes yn yr agenda addysg a dysgu gydol oes, dywedodd un aelod fod yna feysydd o hyd lle ceir sialensau y mae angen eu cydnabod. Mae athrawon wedi bod yn poeni am faterion fel ELWa, ariannu dosbarthiadau chwech ac ati. Roedd rhai o Aelodau'r Pwyllgor yn cydymdeimlo â'r pryderon hynny. Teimlwyd y byddai papur i'r pwyllgor newydd yn amlinellu'r sialensau hyn wedi bod yn ddefnyddiol, fel rhan o adroddiad y Gweinidog. Dywedodd y Gweinidog fod y system addysg yn esblygu ac yn cynnig sialensau newydd beunydd;

dywedodd fod adroddiad y gweinidog yn ymdrin â'r rhannau hynny o'r 'Wlad sy'n Dysgu' oedd wedi'u cyflawni. Dywedodd y Gweinidog i'r Pwyllgor fod ynghlwm wrth y broses honno ac iddo, gan fwyaf, roi cefnogaeth unfryd.

**Dadansoddiad Ystadegol o Gyllidebau Ysgolion**
2.9 Cafwyd peth trafod am y cynnydd o 9.2% i gyllidebau ysgolion. Mynegwyd peth gofid y byddai'r cynnydd yng nghostau rhedeg ysgolion yn negyddu unrhyw gynnydd yng nghyllidebau ysgolion. Esboniodd y Gweinidog bod ffigurau Awdurdodau Addysg Lleol (AALl) unigol wedi'u nodi yn y papurau atodol a roddwyd i Aelodau. Bydd dadansoddiad llawn o gyllidebau awdurdodau lleol yn barod erbyn mis Gorffennaf eleni. Mae yna agweddau newydd y mae'n rhaid eu hystyried: Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiynau. Er hynny, nid yw pob AAL wedi pennu'u cyllidebau. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ceisio annog yr AALlau a oedd wedi tanwario i wario mwy. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am bennu cyllidebau ysgolion. Caiff ymgynghoriad ei gyhoeddi'r wythnos yma ar Ffora Cyllidebau Ysgolion - i ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio cylch cyllido tair blynedd. Yn ôl yr ystadegau yn y papurau atodol, o ran cyllid heb ei glustnodi, mae Cymru'n gwneud yn well ohono na Lloegr. Mae gwariant yng Nghymru gyfuwch â'r gwariant yn yr ardaloedd Metropolitanaidd a'r ardaloedd an-Fetropolitanaidd yn Lloegr. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi ymrwymo i sicrhau bod ysgolion yn cael eu hariannu'n ddigonol.

2.10 Dywedodd un aelod fod y dyraniad ariannol yn siwr o fod yn ddigon os yw maint dosbarthiadau yn cwympo. Cytunodd y Gweinidog, a dywedodd fod maint dosbarthiadau wedi cwympo - yn rhannol am resymau demograffig. Y fformwla ariannu cyffredin - fformwla o 75% y peniant fesul disgybl. Mae ymgynghoriad yn yr arfaeth i ostwng hyn i 50%.

2.11 Crynhodd y Cadeirydd bryderon yr Aelodau. Er eu bod i gyd yn croesawu'r cynnydd o 9.2%, mae'n anodd dweud beth yn union yw'r manteision ar lefel yr ysgol unigol . Dywedodd y Gweinidog bod Llywodraeth y Cynulliad yn credu mewn democratiaeth leol a bod yn well gan awdurdodau gael cyllid heb ei glustnodi.

**Cyngor Cenedlaethol - ELWa**
2.12 Cododd un Aelod fater y diffyg o £10.9 miliwn a ragwelir yng nghyfrifon y Cyngor Cenedlaethol. Gofynnwyd i'r Gweinidog am hynt y trafodaethau ag ELWa a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA). Dywedodd y Gweinidog mai Cyngor Cenedlaethol ELWa sy'n ariannu awdurdodau lleol. Bydd y Gweinidog yn dadansoddi ac yn profi ffigurau a rhagdybiaethau gyda Chyngor Cenedlaethol ELWa ac WLGA.

**Diswyddo Staff Ysgolion**
2.13 Gofynnwyd i'r Gweinidog faint o o ysgolion fyddai'n gorfod diswyddo staff oherwydd diffyg arian. Dywedodd y Gweinidog y daw'r ffigurau i glawr ym mis Mai. Fodd bynnag, mae sôn wedi bod am ddiswyddiadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ond y gwir yw bod mwy o athrawon wedi'u cyflogi. Mae £18.7 miliwn wedi'i neilltuo i dalu am daliadau trothwy.

2.14 Diolchodd y Cadeirydd y Gweinidog am ei hadroddiad olaf a chydnabu'r llwyddiannau yn y sector.

**Eitem tri: Estyn: Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant 2001-2002**

3.1 Estynnodd y Cadeirydd ei groeso i Susan Lewis, Prif Arolygydd ei Mawrhydi, Liz Kidd a Gareth Adams. Cyflwynodd y Prif Arolygydd ei chyflwyniad gyda chymorth PowerPoint ac wedyn gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ei holi. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

**Unedau AAA ynteu AAA yn y prif ffrwd**

3.2 Cafwyd trafodaeth am y data sydd ar gael i gymharu llwyddiant disgyblion AAA mewn unedau â disgyblion sy'n derbyn addysg brif ffrwd. Dywedodd y Prif Arolygydd nad oes llawer o ddata'n bod ond dywedodd y gallai fod yn bosibl cymharu'r disgyblion sydd ag anawsterau dysgu cymhedrol mewn unedau arbennig â'r disgyblion hynny ag AAA sydd mewn addysg brif ffrwd.

**Gwahaniaethau yn ôl rhyw**

**3.3** Mynegwyd cryn ddiddordeb yn y gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched wrth ddewis pynciau TGAU ac a yw'r gwahaniaethau hynny'n dechrau chwalu. Dywedwyd wrth y Gweinidog bod llai o wahaniaethau nawr nag oedd cyn cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Er hynny, mae ychydig o wahaniaethau'n parhau mewn rhai pynciau: mae llawer llai o fechgyn yn dewis ieithoedd tramor modern, arlwyo a Gwyddor Cartref. Mae her enfawr yn wynebu Gyrfa Cymru i chwalu stereoteipio.

**Iaith a Llythrennedd y Blynyddoedd Cynnar**

3.4 Roedd un Aelod yn teimlo bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar lythrennedd yn y blynyddoedd cynnar ar draul datblygiad iaith. Dywedodd y Prif Arolygydd ei bod yn cytuno â hyn i raddau helaeth a dywedodd bod perygl gor-ffurfioli gwaith mewn ysgolion cynradd yn rhy gynnar a bod rhai plant bach yn colli cyfle i gydymwneud â'i gilydd yn ieithyddol. Mae tystiolaeth bod plant bach isel eu gallu yn elwa o gael cyfleoedd strwythuredig o safon uchel i chwarae.

**Addysg Bellach (AB)**

3.5 Gofynnwyd i'r cyflwynwyr beth oedd barn Estyn am safon gyffredinol y dysgu a'r addysg mewn colegau AB o'i chymharu â dosbarthiadau chwech mewn ysgolion. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai Estyn mewn sefyllfa well ymhen blwyddyn neu ddwy i ystyried hyn gan y bu hyd yma ddau fframwaith arolygu gwahanol ar waith. Teimlwyd na fyddai rhyw lawer o wahaniaeth yn safon y dysgu ond y gallai'r canlyniadau fod yn wahanol, gan ddibynnu ar y math o sefydliad AB.

**Disgyblion sydd wedi dadrithio**

3.6 Cafwyd peth trafod am ddisgyblion sydd wedi dadrithio ac am effeithiolrwydd unedau cyfeirio disgyblion. Dywedodd y Prif Arolygydd nad yw'r unedau hyn yn gwbl foddhaol gan ei bod hi'n anodd iddynt ddarparu'r cwricwlwm llawn oherwydd diffyg adnoddau. Mae lefelau cadw disgyblion yn yr unedau hyn yn isel. Teimlwyd bod angen addysg ehangach, ar ddisgyblion dadrithiedig yn enwedig.

**Lleoliadau Gwaith**

3.7 Gofynnodd un aelod a oedd modd gwneud lleoliadau gwaith yn fwy deniadol i ddisgyblion a chyflogwyr. Clywodd y Pwyllgor fod diffygion yn y maes hwn - a bod eisiau cymhellion ar ddisgyblion/myfyrwyr a chyflogwyr fel ei gilydd. Rhaid argyhoeddi'r sawl sy'n derbyn hyfforddiant bod gwerth a sylwedd i leoliad gwaith.

**Bechgyn sy'n Tangyflawni**

3.8 Mae Aelodau'r Pwyllgor yn poeni bod bechgyn yn tangyflawni. Roedd un Aelod o'r farn bod cyswllt pendant rhwng troseddu a diffyg sgiliau. Dywedodd y Prif Arolygydd mai merched oedd yn tangyflawni yn y 1960au a'r 1970au, mewn pynciau fel mathemateg a gwyddoniaeth ond mae'r gwaith a wnaed yn y cyfamser wedi gwella perfformiad merched. Yr allwedd i wella gwaith bechgyn yw

gwella safonau llythrennedd gan mai Cymraeg a Saesneg yn arbennig yw'r pynciau y mae bechgyn yn tangyflawni ynddynt. Mae rhai ysgolion wedi rhoi cynnig yn ddiweddar ar wneud y cwricwlwm yn fwy deniadol i fechgyn a merched fel ei gilydd. Ond canlyniad hynny oedd gweld perfformiad merched yn parhau i ragori ar berfformaid y bechgyn. Er mwyn trechu'r broblem, bydd yn rhaid wrth gydweithio rhwng sawl asiantaeth, ar y cyd â rhieni ac athrawon. Dylid hefyd cadw golwg ar ffigurau presenoldeb mewn ysgolion a ffigurau troseddu. Mae yna fâs-data da yn bod eisoes i asesu ffigurau troseddu.

**Ieithoedd Tramor Modern**

3.9 Mynegodd yr Aelodau eu gofid hefyd bod cyn lleied yn astudio ieithoedd tramor modern a bod eu canlyniadau cynddrwg. Dywedodd y Prif Arolygydd ei bod yn ymwybodol iawn o'r broblem. Roedd y niferoedd oedd yn cymryd ieithoedd tramor modern yn yr ysgolion Cymraeg yn neilltuol o fach. Fodd bynnag, mae lle i fod yn fwy creadigol wrth baratoi amserlenni ysgolion, a thrwy hynny, creu continiwm. Ychwanegodd y Gweinidog y caiff strategaeth ieithoedd tramor modern eu rhoi ar waith mewn ysgolion cynradd, a chaiff canlyniadau bidiau peilot eu cyhoeddi yn yr wythnos i ddod.

**Y Dimensiwn Ewropeaidd**

3.10 Dywedodd y Cadeirydd iddo roi tystiolaeth ar ran y Pwyllgor i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol am agweddau Ewropeaidd ar waith y Pwyllgor. Gofynnodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr a oedd Estyn yn asesu agweddau Ewropeaidd ar waith ysgolion. Dywedodd y Prif Arolygydd yn ei hateb nad oedd llawer o bwyslais yn cael ei roi ar hyn ond bod Estyn yn edrych i ba raddau y mae ysgolion yn paratoi'u disgyblion ar gyfer bywyd yn y byd 'go iawn'.

**TGCh**

3.11 Mynegwyd peth diddordeb ynghylch faint o hyfforddiant mewn TGCh y mae'n ofynnol i athrawon ei gael. Dywedodd y Prif Arolygydd bod sgiliau sylfaenol wedi gwella. Mae athrawon newydd i'w gweld yn meddu ar sgiliau da. Mae gan bob ysgol yng Nghymru, gan gynnwys yr ysgolion hynny sydd dros ganrif oed, rywfaint o adnoddau TGCh. Mae byrddau gwynion yn dechrau cael effaith lesol. Teimlwyd ei bod yn bwysig parhau i ddatblygu athrawon a gofalu nad yw athrawon, er lles cynnydd, yn ymgymryd â thasgau technegol.

**Safonau**

3.12 Mynegwyd peth diddordeb ynghylch y berthynas, o safbwynt safonau, rhwng ansawdd yr addysg a rhaniadau cymdeithasol-economaidd. Dywedodd y Prif Arolygydd nad oedd hi'n teimlo bod yna raniadau penodol: fe welid yn aml bod yna wahaniaeth anferth rhwng safonau ysgolion a chanddynt amgylchiadau cymdeithasol-economaidd tebyg. Gellid dweud yr un peth am ysgolion yn yr un AALl. Dywedodd Gareth Adams bod yna wastad berthynas wedi bod rhwng safonau cyrhaeddiad uwch a'r disgyblion hynny sy'n dod o ben uchaf y cefndiroedd cymdeithasol-economaidd cymharol breintiedig. Mae'r mynegai Ciniawau am Ddim wedi cael ei ddefnyddio i fesur amddifadedd. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl 'meincnodi' canlyniadau ysgolion er mwyn i ysgolion allu cymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion eraill tebyg eu hamgylchiadau. Mae data o'r fath yn cael ei ddefnyddio fwyfwy gan AALlau i weld pa ysgolion sydd ddim yn gwneud cystal ag y dylent.

**Saesneg fel Iaith Ychwanegol**

3.13 Gofynnwyd i'r cyflwynwyr faint o hyfforddiant sydd ei angen ar athro i allu dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ac a oes yna brinder yn y math hwn o wasanaeth. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod hi'n dibynnu ble rydych chi yng Nghymru a oes yna brinder neu beidio. Ceir y problemau mwyaf weithiau pan mai ond ychydig ddisgyblion sydd ag angen Saesneg arnynt fel iaith ychwanegol. Gellid gwneud dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn gymhwyster ychwanegol.

**Datblygiad Ysbrydol/Moesol**
3.14 Cyfeiriwyd at dudalen 75 yr adroddiad ac at y ffaith bod yr un ysgol wrthododd drefnu cydaddoliad wedi torri'r gyfraith. Gofynnodd Aelodau a oedd dadl dros adolygu polisi yn y maes hwn gan nad yw'r ddeddf bresennol yn darparu ar gyfer disgyblion aml-ffydd neu ddi-ffydd. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod Arolygydd (HMI) sy'n gweld ysgol yn torri rheol statudol yn gorfod nodi'r mater hwn yng nghynllun gweithredu'r ysgol. I newid y polisi cyfredol, byddai'n rhaid diwygio'r ddeddf sylfaenol.

**Iechyd a Diogelwch**
3.15 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd Estyn yn gorfod paratoi adroddiadau ar Iechyd a Diogelwch mewn ysgolion. Dywedodd y Prif Arolygydd bod y tîm, os ydynt yn gweld rhywbeth allai peryglu iechyd a diogelwch disgyblion, yn tynnu sylw ato. Er hynny, nid arolygwyr iechyd a diogelwch mohonynt.

**Hyfforddiant yn y Gwaith**
3.16 Dywedodd y Gweinidog bod angen codi safonau'r math yma o hyfforddiant a bod ganddi bryderon am ansawdd mewn rhai achosion. Gofynnodd y Gweinidog i'r cyflwynwyr faint o ddarparwyr 'hyfforddiant yn y gwaith' yr oeddynt wedi'u harolygu, a oedd gormod ohonynt a faint o'r rheini a arolygwyd oedd yn y sector cyhoeddus a faint yn y sector preifat. Dywedodd y Prif Arolygydd mai hwn oedd cylch arolygu cyntaf hyfforddiant yn y gwaith a dim ond ers 1999 y mae Estyn wedi bod yn arolygu darparwyr hyfforddiant yn y gwaith, Mae'n bwysig rhoi pryderon mewn cyd-destun. Dywedodd Liz Kidd bod 35-40 o ddarparwyr yn cael eu harolygu bob blwyddyn, yn gymysgedd o ddarparwyr sector cyhoeddus a sector preifat. Mae safon yn amrywio trwy'r sector cyfan. Mae Cyngor Cenedlaethol ELWa yn edrych ar nifer y darparwyr. Mae'r ddarpariaeth yn amrywio, ac yn aml, cynigir gwasanaethau arbenigol i grwpiau penodol o gleientiaid; byddai unrhyw leihad yn y ddarpariaeth yn gorfod cymryd hynny i ystyriaeth ac o'r angen i gynnal yr amrywiaeth ym mhob rhan o Gymru.

3.17 Diolchodd y Cadeirydd y cyflwynwyr a chydnabod gwaith Estyn a'r arfer da a geir mewn ysgolion.

**Eitem Pedwar: Bwlio mewn Ysgolion**
**Papur: ELL 05-03 (p.2)**
4.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i Jane Harries a Sara Reid. Defnyddiodd Jane Harries gyfarpar PowerPoint i'w helpu â'i chyflwyniad a gwnaeth Sara Reid gyflwyniad llafar byr, a oedd yn cynnwys tystiolaeth anecdotaidd gan weithiwr prosiect dan hyfforddiant, Damian Egdell. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gweinidog roi cyflwyniad byr. Dyma grynodeb o'r prif bwyntiau:

- Rhaid cydnabod bod bwlio'n digwydd a rhaid mynd i'r afael ag ef mewn ffordd briodol;
- Mae'r cyfnod ymgynghori ar y canllaw drafft ar fwlio: 'Parchu ein Gilydd' yn dod i ben ddiwedd y mis;
- Mae angen edrych ar bwy sy'n cael ei fwlio a'r rhesymau - rhaid gwneud hynny ar y cyd ag ysgolion eraill ac asiantaethau y mae pobl ifanc yn cysylltu â nhw: sector gwirfoddol ac ati; a
- byddai gofyn hyfforddi staff i allu delio â phroblem bwlio.

4.2 Yna gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr Aelodau gwestiynau a chodwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

**Rôl Rhieni**
4.3 Gofynnodd y Cadeirydd pryd, o safbwynt yr ymateb 'cymalog' i fwlio, y dylid cysylltu â rhieni. Dywedodd Jane Harries y dylid dweud wrth rieni mewn cyfarfodydd rhieni ac ati. Un mater pwysig oedd sut y dylai ysgol ddelio â rhiant sy'n porthi agweddau anadeiladol at fwlio.

**Rhoi'r Bai ar Neb/Ymateb 'cymalog' at fwlio**
4.4 Gofynnodd Aelodau a oedd y cyflwynwyr yn teimlo y dylai'r bwli ysgwyddo peth o'r bai mewn rhai achosion, ac roeddynt yn poeni bod disgwyl i'r sawl sy'n cael ei fwlio ysgwyddo peth o'r cyfrifoldeb neu'r bai. Dywedodd Jane Harries nad yw'r sawl sy'n cael ei fwlio byth ar fai. Cyfrifoldeb oedolion yw amddiffyn plant yn y pendraw. Gofynnid i bobl ifanc am ganiatâd i rannu gwybodaeth, yn rhannol er mwyn dangos i'r bwli effaith ei fwlio a'i wneud i sylweddoli y byddai'r dioddefwr yn teimlo'n well pa bai'n rhoi'r gorau iddi. Teimlwyd bod bwlio yn broses grwp. Dywedodd Sara Reid ei bod yn bwysig meddwl mai ymddygiad y bwli yw'r broblem ac nid yr unigolyn ei hun.

4.5 Nid oedd amser i'r cyflwynwyr ateb rhagor o gwestiynau. Awgrymodd y Cadeirydd bod y cyflwynwyr yn anfon eu hatebion i gwestiynau amrywiol, sydd wedi'u rhestru isod, at y Clerc:

- A oes yna wybodaeth ddiweddar am effeithiolrwydd strategaethau atal bwlio?
- A oes unrhyw waith wedi'i wneud i greu proffil o'r 'bwli'?
- A oes gwaith ymchwil wedi'i wneud i weld a yw bwlis wedi cael eu bwlio ar yr aelwyd?
- A yw bwlio'n ffyrnicach heddiw nag yn y gorffennol?
- A oes yna ffyrdd gwahanol o ddelio â bwlio yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd?
- A oes angen sgiliau neu gymorth ychwanegol ar athrawon i ddelio â bwlio?
- O ran bwlio a thueddiadau ffasiwn - a oes dadl o blaid polisi ar iwnifform ysgol yng Nghymru?
- I ba raddau y mae'r asiantaethau amrywiol yn gyson o ran eu strategaethau gweithredu?

Sylwadau eraill:

- Teimlwyd y gallai asiantaethau allanol, o'u hariannu, leddfu'r tensiynau y mae athrawon weithiau'n eu teimlo wrth orfod mynd i'r afael â bwlio.
- Gall dylanwad cyfoedion, y teulu neu'r gymuned atgyfnerthu bwlio homoffobig neu hiliol.

4.6 Diolchodd y Cadeirydd y cyflwynwyr am eu cyfraniad.

**Pwynt Gweithredu**

- Bydd y cyflwynwyr yn rhoi atebion ysgrifenedig i gwestiynau ychwanegol, trwy'r Clerc.

**Eitem Pump: Addysg Uwch: Cynnal Myfyrwyr - Cymru a Lloegr**
***Papur: ELL 05-03 (p.3)***
5.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei phapur am ddatganoli elfennau o'r gynhaliaeth a roddir i fyfyrwyr. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at ohebiaeth gafodd gyda'r Gwir Anrh Charles Clarke AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau - sydd wedi'i chynnwys yn yr atodiad i'r papur.

5.2 Rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Aelodau ei bod ar fin cyhoeddi datganiad i'r wasg am roi'r strategaeth a geir yn *Reaching Higher* ar waith. Bydd y datganiad yn dweud bod Llywodraeth y Cynulliad yn neilltuo £8 miliwn yn ychwanegol er mwyn i sefydliadau addysg uwch allu cydweithio'n well ac ehangu mynediad.

5.3 Hysbysodd y Gweinidog yr Aelodau y caiff eitemau amrywiol o is-ddeddfwriaeth addysg uwch eu cyflwyno yn yr hydref, fwy na thebyg, a chaiff y pwyllgor newydd gyfle i'w trafod.

5.4 Yna gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr Aelodau gwestiynau a chodwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

**Datganoli Pwerau**
5.5 Roedd rhai Aelodau'n teimlo nad oedd safbwynt yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau ar y mater hwn yn hollol glir. Dywedodd y Gweinidog y caiff y materion y cyfeirir atyn nhw yn y papur eu trafod ymhellach gan Lywodraeth y Cynulliad, y Swyddfa Gymreig a swyddogion perthnasol. Un o nodau'r trafodaethau hyn yw gwneud yn siwr y bydd digon o adnoddau'n cael eu trosglwyddo i gynnal unrhyw bwerau a drosglwyddir i'r Cynulliad, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw wahaniaethau demograffig nawr ac yn y dyfodol rhwng Cymru a Lloegr. Roedd yr Aelodau ar y cyfan o blaid yr egwyddor o ddatganoli pwerau i gynnal myfyrwyr i Lywodraeth y Cynulliad, cyn belled â bod digon o arian yn cael ei roi y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Roedd yr Aelodau ar y cyfan yn wrthwynebus i'r ffioedd amrywiol (neu'r ffioedd ychwanegol fel y'u gelwir) yng Nghymru.

**Rheoleiddydd / Cydlynydd Mynediad**
5.6 Roedd rhai Aelodau'n amau a oedd angen rheoleiddydd mynediad neu gydlynydd cenedlaethol, ond roedd rhai o'r Aelodau eraill o blaid. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r cydlynydd yng Nghymru yn gweithio gyda'r HEFCW ac y byddai'n gyfrifol am sicrhau yr eir ati mewn ffordd integredig i ehangu mynediad.

**Grant Dysgu'r Cynulliad (ALG)**
5.7 Roedd rhai Aelodau'n teimlo y dylid newid y ffordd y mae'r ALG yn cael ei redeg i adlewyrchu effaith y Grant Addysg Uwch arfaethedig yn Lloegr. Gwnaeth y Gweinidog gydnabod y gofidiau hyn a dywedodd y byddai'n cadw golwg ar y sefyllfa. Dywedodd bod yr un faint o fyfyrwyr yn dod i Gymru i astudio, yn fras, ag sy'n mynd allan ac felly, ni ddylai'r system grantiau newid y cydbwysedd hwn.

**Ymarferiad Asesu Ymchwil (RAE)**
5.8 Dywedodd y Gweinidog bod yr RAE yn cael ei adolygu, ond mae hi o'r farn ei bod yn hanfodol cadw'r asesiad ar lefel y DU, er mwyn cynnal a chodi statws rhyngwladol holl sefydliadau addysg uwch Prydain. Roedd y Gweinidog yn ofidus am y cynigion yn y papur gwyn i sefydlu 6* sefydliad addysg uwch yn Lloegr a'i bod wedi dweud wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau am ei gofidiau.

**Trefn Gwyno**
5.9 Roedd yr Aelodau'n croesawu'r cynigion i wneud y drefn gwyno i fyfyrwyr yn symlach a mwy cyson, gan gynnwys penodi beirniad statudol. Cytunodd y Gweinidog â'r Aelodau bod hwn yn welliant y mae disgwyl mawr wedi bod amdano.

5.10 Diolchodd y Cadeirydd y Gweinidog am ei chyfraniad a dywedodd y byddai'n ysgrifennu, ar ran y Pwyllgor, at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau yn nodi barn y Pwyllgor.

**Pwynt Gweithredu**
- Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau yn nodi barn y Pwyllgor; ei fod ar y cyfan o blaid datganoli pwerau i Lywodraeth y Cynulliad ac ar y cyfan yn erbyn cyflwyno ffioedd amrywiol yng Nghymru.

**Sylwadau i gloi**
Diolchodd Cynog Dafis y Cadeirydd am ei arweiniad ac am roi o'i brofiad helaeth ym myd addysg i heolio sylw'r Pwyllgor mor effeithiol ar ei waith. Cymeradwywyd y sylwadau hyn gan holl Aelodau'r Pwyllgor.

**Eitem Chwech: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**
***Papur: ELL 04-03(min)***
6.1 Yn amodol ar nodi ymddiheuriadau Helen Mary Jones, cymeradwyodd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod diwethaf ar 13 Mawrth 2003.

**Nododd yr Aelodau y papur canlynol:**

**Cynllunio i wella mynediad i ysgolion ar gyfer disgyblion anabl**
***Papur: ELL 05-03 (p.4)***